



## **Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf**

## **Adroddiad Blynyddol 2016 - 2017**

## Cynnwys

**Adran 1: Rhagarweiniad gan y Cadeirydd  
Tudalen 3**

**Adran 2: Cefndir y Bwrdd Partneriaeth Tudalen 5**

**Adran 3: Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf  
Tudalen 6**

**Adran 4: Cynnydd yn erbyn amcanion Tudalen 13**

**Adran 5 Atodiadau Tudalen 27**



## Adran 1: Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

A minnau'n gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf, mae'n bleser gennyf i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Cyntaf ar gyfer 2016/2017 sy'n amlinellu'r cynnydd y mae'r Bartneriaeth wedi'i wneud yn ystod ei blwyddyn gyntaf.

Roedd hon yn flwyddyn arwyddocaol i'r maes lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r ddeddf yma'n hyrwyddo'r egwyddorion hanfodol canlynol

### **Llais a rheoli**

Mae'r Ddeddf newydd yn sicrhau bod yr unigolyn a'i anghenion yn ganolog i'w ofal, a rhoi llais a rheolaeth iddo o ran sicrhau'r deilliannau a fydd yn ei helpu i sicrhau lles.

### **Atal ac ymyrraeth gynnar**

Mae'r Ddeddf newydd yn pwysleisio pa mor bwysig yw cynyddu nifer y gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned er mwyn atal anghenion brys rhag cael eu cyfeirio at lefel uwch.

### **Lles**

Mae'r Ddeddf newydd yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu lles eu hunain ac i fesur llwyddiant gofal a chymorth.

### **Cyd-gynhyrchu**

Mae'r Ddeddf newydd yn annog unigolion i chwarae rhan fwy amlwg o ran cynllunio gwasanaethau a'u darparu.

### **Ymgorffori**

Yn ogystal â hynny, mae'r Ddeddf newydd yn hybu rhagor o gydweithio agos rhwng yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill.

Cafodd y fframwaith cyfreithiol newidiol yma ei gyflwyno yn rhannol er mwyn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae rhagor o bobl yn byw am gyfnod hirach. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn gallu byw bywydau gweithgar ac annibynnol, mae nifer cynyddol ohonyn nhw angen gofal a chymorth er mwyn ymdopi ag effeithiau salwch hirdymor, anabledd neu berthynas yn chwalu. Dyw'r gwasanaethau traddodiadol y darparon ni yn y gorffennol ddim yn ddigon hyblyg i lawer o bobl erbyn hyn. Dydyn nhw ddim yn galluogi pobl i gymryd rheolaeth ar eu bywydau na bod yn annibynnol, sef yr hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud er mwyn dibynnu llai ar bobl a byw bywydau mwy llawn.

Mae pob un sefydliad partner yng Nghwm Taf yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau ledled y rhanbarth sy'n ymateb i anghenion plant, pobl ifainc, oedolion a theuluoedd sy'n agored i niwed. Rydyn ni oll wedi ymrwymo i

hyrwyddo gwasanaethau ymatebol o ansawdd uchel i'r cyhoedd. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bo rhaid i ni weithio gyda'n gilydd os ydyn ni am drawsnewid ein gwasanaethau a myndd i'r afael â'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu.

Rydyn ni'n anelu at drawsnewid y gwasanaeth ar raddfa fawr. O ganlyniad i hynny, ein ffocws ar gyfer eleni oedd cyflawni'r gwaith paratoi sydd ei angen er mwyn sefydlu'r fframweithiau strategol angenrheidiol ar gyfer llywio'r ffordd y caiff ein gwasanaeth ei ddarparu dros y 5-10 mlynedd nesaf.

Er bod yr amcan hirdymor yma'n bwysig, o reidrwydd, fydd e ddim yn cael effaith uniongyrchol ar brofiad pobl o ddefnyddio ein gwasanaethau. Yn ffodus iawn, llwyddodd y Bartneriaeth i fanteisio ar Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi ein galluogi ni i roi cynnig ar fodolau gwasanaeth newydd gyda'n gilydd. Cafodd rhai o'r rhain eu rhoi ar waith drwy gydol 2016/17, megis ein gwasanaeth Ail-alluogi, ein gwasanaeth Ail-alluogi i bobl â dementia, y gwasanaeth Gadael yr Ysbyty yn Gynnar ar ôl Strôc a Chydlynwyr y Gymuned. Mae modelau gwasanaeth eraill, megis y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, wrthi'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd yn dilyn gwaith cynllunio gwasanaeth trylwyr a phenodi aelodau o'r carfanau.

Roedd cwblhau'r Asesiad o'r Boblogaeth yn garreg filltir arwyddocaol i Fwrdd Partneriaeth Cwm Taf. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddata meintiol ac ansoddol sydd wedi'n helpu ni i feithrin dealltwriaeth well o'r hyn sy'n bwysig i'n trigolion a'n cymunedau. Rydyn ni o'r farn fod yr Asesiad yn rhoi sail gryfach i ni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda'n gilydd.

Yn gyffredinol, rydw i'n falch o ddweud bod y Bwrdd Partneriaeth wedi gwneud gwaith cynhyrchiol yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Rydyn ni wedi llwyddo i wneud cynnydd da a chyson yn erbyn yr amcanion y pennon ni yr adeg yma y llynedd.

Hoffwn i achub ar y cyfle yma i ddiolch i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth, yn ogystal â'r staff, am eu hamser, eu hymrwymiad a'u parodrwydd i weithio gyda'i gilydd mewn modd cadarnhaol yn ystod y flwyddyn gyntaf yma.

**Y Cynghorydd Linda Matthews,  
Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf 2016-17**

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") i rym ar 6 Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn rheoli gwasanaethau a'u datblygu at ddiben cyflawni gwaith cynllunio strategol a gwaith partneriaeth rhwng y ddau sefydliad. Bydd hyn hefyd at ddiben sicrhau bod gwasanaethau effeithiol, gofal a chymorth ar waith er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn y modd gorau posibl.

Amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw sicrhau bod y cyrff sy'n bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd mewn modd effeithiol er mwyn:

- ✚ Ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a gafodd ei gynnal yn unol ag adran 14 y Ddeddf.
- ✚ Rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer yr holl ardaloedd Awdurdod Lleol sydd dan ofal y Bwrdd. Mae gofyn i'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol eu llunio a'u cyhoeddi.
- ✚ Sicrhau bod y cyrff sy'n bartneriaid yn darparu adnoddau digonol ar gyfer trefniadau'r Bartneriaeth.
- ✚ Hybu'r broses o sefydlu cronfa arian ar y cyd lle bo modd gwneud hynny.

Mae gofyn i'r Byrddau Partneriaeth Lleol flaenoriaethu'r broses o integreiddio gwasanaethau ar gyfer:

- ✚ Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- ✚ Pobl sydd ag anableddau dysgu
- ✚ Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc
- ✚ Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd;
- ✚ Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch

Yn ogystal â hynny, ac yn fwy penodol, mae disgwyl i'r Bwrdd Partneriaeth sicrhau bod cronfeydd arian ar y cyd yn cael eu sefydlu a'u rheoli mewn perthynas â llety gofal preswyl o 6 Ebrill 2018. Hefyd, mae disgwyl iddo sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau, gofal a chymorth eu darparu, a hynny ar sail technoleg a systemau cyffredin. Am ragor o wybodaeth am ofynion y Byrddau Partneriaeth yng Nghymru, dilynwch y ddolen isod:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part9en.pdf>

### **Adran 3: Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf**

Ym mis Chwefror a mis Mawrth 2016, cymerodd Aelodau Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf ran mewn dau weithdy er mwyn cytuno ar egwyddorion a fyddai'n llywio eu gwaith ac egluro eu rôl, eu diben a'r amcanion lleol. Cafodd y rhain eu hardystio drwy Femorandwm Dealltwriaeth yr oedd pob sefydliad partner wedi'u cefnogi drwy eu trefniadau llywodraethu ffurfiol. Maen nhw wedi'u hamlinellu isod:

#### **Yr egwyddorion sy'n llywio gwaith Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf**

- Byddwn ni'n hyrwyddo cyfathrebu effeithiol ym mhob rhan o'r bartneriaeth ac yn cynorthwyo pobl i wneud hynny
- Byddwn ni'n sicrhau bod y cyhoedd, yn enwedig y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u cynhalwyr, yn gallu dylanwadu ar waith y bartneriaeth
- Byddwn ni'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau Cwm Taf
- Byddwn ni'n annog ac yn hybu datrysiadau er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu i bobl yng Nghwm Taf
- Byddwn ni'n annog pobl i gydweithio ac integreiddio, ac yn cefnogi'r broses o wneud hynny
- Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n cydbwysu anghenion tymor byr a nodau hirdymor.

#### **Prif rolau ar gyfer Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf yw:**

- Sicrhau bod y sefydliadau yn cytuno ar weledigaeth a chyfeiriad clir o ran datblygu'r gwasanaeth, integreiddio iechyd, gofal a lles
- Sicrhau bod cynlluniau a strategaethau cyffredin yn cael eu rhoi ar waith (a'u hategu gan achosion busnes priodol) er mwyn cyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn deilliannau a dangosyddion cyflawniad y mae'r sefydliadau wedi cytuno arny'n nhw a'u deall
- Rhoi dull gweithredu strategol o ran cyfathrebu a chyhoeddi cyfeiriad y bartneriaeth a'r cynnydd a gaiff ei wneud
- Sicrhau y caiff egwyddorion y Bwrdd eu cynnal
- Arolygu'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu gan y Bwrdd Partneriaeth mewn modd effeithlon
- Rhoi gwybod i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, yn ogystal â chyfeirio unrhyw faterion sy'n atal cynnydd i'r Bwrdd Partneriaeth er mwyn eu datrys
- Sicrhau y caiff adroddiad blynyddol ar gynnydd ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol.

**Mae rhaglen o weithgareddau craffu ac adolygu Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf yn canolbwyntio ar yr amcanion canlynol:**

- Sicrhau bod yr asesiad o'r boblogaeth sy'n ofynnol yn ôl adran 14 o'r Ddeddf yn cael ei chyflawni, a'u bod yn effeithiol.
- Sicrhau bod deilliant yr asesiad o'r boblogaeth yn cael ei hystyried wrth lunio, cyhoeddi a chyflawni cynlluniau strategol
- Sicrhau bod y cyrff sy'n bartneriaid yn darparu adnoddau digonol fel bod trefniadau'r bartneriaeth yn effeithiol
- Sicrhau bod cronfeydd ar y cyd yn cael eu sefydlu lle y bo hynny'n briodol
- Caiff yr wybodaeth yma ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau, gofal a chymorth eu darparu. Caiff hyn ei wneud ar sail technoleg a systemau cyffredin
- Sicrhau bod cynnydd o ran y broses o integreiddio gwasanaethau ar gyfer y bobl ganlynol
  - Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia;
  - Pobl sydd ag anableddau dysgu;
  - Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc;
  - Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd;
  - Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch.
- Sicrhau y caiff cronfeydd arian ar y cyd eu sefydlu a'u rheoli yn unol â llety gofal preswyl o 6 Ebrill 2018 ymlaen.
- Sicrhau y caiff cronfeydd arian ar y cyd eu creu a'u rheoli yn unol â'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd o 6 Ebrill 2016 ymlaen.

**Aelodau Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf 2016/17**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

[www.rctcbc.gov.uk](http://www.rctcbc.gov.uk)

**(Is-gadeirydd)**

Y Cyngorydd Geraint Hopkins, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Chydraddoldeb

Y Cyngorydd Mike Forey, Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gwasanaethau i Oedolion  
Y Cyngorydd Joy Rosser Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant, Lles a Chymunedau  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (*Prif Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Rhanbarth*)

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

[www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)

**(Cadeirydd a chynrychiolydd ar Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau'r Cyhoedd Cwm Taf)**



Y Cyngorydd Linda Matthews, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adfywio Cymdeithasol  
Lisa Curtis Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

### **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF**

[www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk](http://www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk)

Donna Mead, Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Ruth Treharne, Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyflawniad  
Lynda Williams, Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau i Gleifion  
John Palmer, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cynradd, Cymuned ac Iechyd Meddwl  
Samia Saeed-Edmonds, Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau Cynorthwyol

### **Y TRYDYDD SECTOR**

Jean Harrington, Cadeirydd Cyngor Gwirfoddol Interlink y Sir ar gyfer Rhondda Cynon Taf

[www.interlinkrct.org](http://www.interlinkrct.org)

Brian Lewis, Cadeirydd Gweithredu Gorfodol Merthyr Tudful - Cyngor Gwirfoddol y Sir ar gyfer Merthyr Tudful

[www.vamt.net](http://www.vamt.net)

Rachel Rowlands, Age Connects Morgannwg /Age Alliance [www.agealliancewales.org.uk](http://www.agealliancewales.org.uk)

### **FFORWM GOFAL CYMRU**

Mike Slater, perchennog Cartref Gofal Ysgubor Wen

[www.careforumwales.co.uk](http://www.careforumwales.co.uk)

### **CYNGOR GOFAL CYMRU**

Pauline Jones, Aelod (cynhaliwr) Cyngor Gofal Cymru

[www.ccwales.org.uk](http://www.ccwales.org.uk)

**CYNRYCHIOLWR DEFNYDDWYR Y GWASANAETH**  
bryd

Mae'r swydd yma'n wag ar hyn o

**CYNRYCHIOLWR Y CYNHALWYR**

Mae'r swydd yma'n wag ar hyn o bryd

Caiff swydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hadolygu bob blwyddyn a chaiff unigolion o bob sefydliad partner statudol gyfle i gael eu penodi i'r swydd.

Caiff cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth eu cynnal bob mis, caiff rhestr o ddyddiadau'r cyfarfodydd ei dosbarthu ar ddechrau bob blwyddyn ariannol a bydd yr aelodau yn cytuno arnyn nhw.

Mae pob aelod o'r Bwrdd Partneriaeth yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a chynlluniau strategol a gaiff eu gwneud gan y Bwrdd Partneriaeth yn cael eu cefnogi gan y cyrff sy'n bartneriaid ac yn cael eu trosglwyddo a'u hystyried gan y systemau llywodraethu perthnasol

### **Trefniadau Arwain Rhanbarthol**

#### **Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae'r Bwrdd Partneriaeth yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar ei feysydd cyfrifoldeb penodol ym maes iechyd, gofal a lles. Mae Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y rheswm yma ac er

mwyn sicrhau y caiff y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu hunioni mewn modd effeithiol.

Caiff y gynrychiolaeth yma rhagor o gefnogaeth ar Fwrdd Partneriaeth Strategol gan fod cyd-Gadeiryddion y Grŵp Arwain Trawsnewid yn aelodau o'r Bwrdd. Mae'n ymddangos bod y trefniadau yma yn effeithiol o ran cydlynu blaenoriaethau ac ymdrechion yn y rhanbarth (e.e. y dull gweithredu cyffredin o ran yr Asesiad Llesiant a'r Asesiad o'r Boblogaeth)

### Grŵp Arwain Trawsnewid Cwm Taf

Mae Grŵp Arwain Trawsnewid Cwm Taf yn cefnogi gwaith Bwrdd Partneriaeth Cwm Taf. Mae Swyddogion Gweithredol ac Uwch Swyddogion o'r sefydliadau partner yn rhan o'r grŵp yma, ac mae ei brif gyfrifoldebau yn cynnwys:

- Hwyluso'r broses o drawsnewid a rheoli newid ar gyfer gwasanaethau ym mhob rhan o'r rhanbarth
- Blaenoriaethu a chwilio am adnoddau i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Rhanbarthol (gan gynnwys y Cynllun Hyfforddi a Datblygu a strategaethau comisiynu cysylltiedig)
- Helpu'r cynllun gweithredu i wneud cynnydd ac ystyried adroddiadau sy'n eithrio, penderfyniadau sydd ar y gweill, meysydd o bryder a materion sy'n atal cynnydd o ran grwpiau gweithredol
- Darparu cyngor ac argymhellion Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf
- Ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu Rhanbarthol a'i gynnydd
- Gwerthuso modelau gwasanaeth, trawsnewid a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â hynny (e.e. mentrau a gaiff eu hariannu drwy ofal sylfaenol, gofal canolraddol a Grantiau Trawsnewid)

### Rhanbarth Cwm Taf: Is-grŵp Cydgomisiynu

Cafodd cyd-gomisiynu ei nodi'n un o'r prif flaenoriaethau o dan Gynllun Gweithredu Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf. Llunion ni'r cynllun yma er mwyn rhoi sicrwydd am y trefniadau sydd ar waith i atgyfnerthu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Is-grŵp Cydgomisiynu yn rhoi cyngor i Fwrdd Partneriaeth a Grŵp Arwain Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf ar:

- Llunio Datganiadau Cydgomisiynu i Blant a Phobl Ifainc ac ar Anableddau Dysgu, yn ogystal ag ymgysylltu yn rhan o'r broses yma;
- Datblygu a monitro cynlluniau gweithredu ar gyfer y Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn 2015-25, a'r Datganiadau Cydgomisiynu uchod ar ôl iddyn nhw gael eu cwblhau;
- Rhaglen Gweithredu Strategaeth Cynhalwyr Cwm Taf;
- Ystyried cyfleoedd am weithred cydgomisiynu ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf yn ogystal â'u datblygu;
- Rheoli'r broses o werthuso'r Gronfa Gofal Canolraddol bob chwarter;

- Rheoli'r broses o adolygu'r Gronfa Gofal Canolraddol bob blwyddyn;
- Rheoli'r broses o weithredu Cynllun Gweithredu Adolygu Cartrefi Gofal y Comisiynydd Pobl Hŷn;
- Unrhyw flaenoriaethau eraill sy'n deillio o'r broses o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ymwneud â phobl hŷn, plant a phobl ifainc neu bobl ag anableddau dysgu.

Mae cylch gorchwyl y grŵp yn canolbwyntio'n benodol ar wasanaethau a chymorth i bobl hŷn, plant a phobl ifainc; anableddau dysgu; a chynhalwyr yng Nghwm Taf.

### Panel Trigolion Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf

Diben y Panel Trigolion yw helpu i'r Bwrdd Partneriaeth ddeall a yw ei bolisiâu'n gweithio ai peidio a gweld a ydyn nhw'n mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod modd i'r Banel wneud penderfyniadau mwy effeithlon sy'n cael effaith fwy ar fywydau pobl. Roedd y Panel Trigolion yn rhan o'r trefniadau Arwain Rhanbarthol yng Nghwm Taf yn 2016/17. Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Mae aelodau'r panel yn drigolion
- Mae'n cynnig cipolwg ar y ffordd mae'r gwasanaethau'n gweithio o safbwynt personol
- Bydd e'n rhannu syniadau am sut mae modd i'r gwasanaethau weithio'n well ac mae'n cynnig cymhelliant ar gyfer eu gwella
- Bydd e'n rhannu syniadau am sut mae modd iddyn nhw wella eu bywydau
- Bydd ei aelodau yn siarad dros eu hunain; dydyn nhw ddim yn cynrychioli grŵp o bobl
- Bydd e'n ystyried meysydd sy'n peri pryder i'r Bwrdd Partneriaeth, yn ogystal â'r swyddogion Polisi sy'n gweithio ar flaenoriaethau'r bartneriaeth ac yn darparu safbwynt unigryw o ran profiad ac arbenigedd personol
- Does gan y banel ddim rôl o ran lobïo

Yn ystod 2016/17, cynhalion ni 4 sesiwn Panel Trigolion cynhyrchiol. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Panel trigolion i bobl ifainc sy'n ystyried safbwynt plant sy'n derbyn gofal (cafodd y deiliant ei recordio fel ffilm) - arweiniodd un o ddeilliannau'r panel at ddatblygu stori prosiect hanes bywyd i blant sy'n derbyn gofal
- Panel trigolion i oedolion i ystyried safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr o ran gwasanaethau integredig (cafodd y deiliant ei gofnodi ar ffurf adroddiad) - arweiniodd un o'r deilliannau at ddatblygu'r gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref a'r angen cryf i barhau â'r system WCCIS
- Panel trigolion i oedolion i ystyried safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr o ran ymgysylltu â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (cafodd y deiliant ei gofnodi ar ffurf adroddiad)
- Panel trigolion i oedolion i ystyried safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr am y gweithlu a ffyrdd o ddatblygu'r gweithlu (cafodd y deiliant ei gofnodi ar ffurf adroddiad) - caiff y deiliant ei ddefnyddio yn rhan o'r

dadansoddiad o anghenion hyfforddiant ar gyfer Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

### **Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol**

Diben Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yw gwella ansawdd a dull rheoli'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cymdeithasol. Caiff hyn ei wneud drwy roi dull gweithredu sydd wedi'i gynllunio ar waith o ran dysgu a datblygu ac ymdrechu i gynyddu nifer y bobl sy'n cael hyfforddiant yn y sector gofal cymdeithasol.

Cafodd y Panel Trigolion ei sefydlu ym mis Ebrill 2016. Mae'n rhan o'r trefniadau Arwain Rhanbarthol yng Nghwm Taf, a hynny yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Gweithio i sicrhau bod staff ym mhob sefydliad partner sy'n cyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r dyletswyddau sydd eu hangen i weithio o dan y fframwaith cyfreithiol newydd a sicrhau bod y newidiadau diwylliannol sydd eu hangen yn cael eu rhoi ar waith.
- Sicrhau bod yr holl brosesau dysgu a datblygu craidd ar gyfer staff gofal cymdeithasol yn cael ei ailstrwythuro er mwyn adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol newydd, gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant o ran cymwysterau.
- Cefnogi hyfforddiant ym maes Gofal Cymdeithasol
- Helpu gweithwyr gofal cymdeithasol y rheng flaen i ddatblygu sgiliau
- Cefnogi'r seilwaith o ran dysgu a datblygu

Yn ystod 2016/17, llwyddodd gwasanaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf i gwblhau'r Rhaglen Dysgu a Datblygu sydd ei hangen i gefnogi'r broses o gyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

### **Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles**

Cafodd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol ei sefydlu yn rhan o'r trefniadau Arwain Rhanbarthol er mwyn helpu darparwyr gwerth cymdeithasol i feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r agenda a gweithio gyda'i gilydd i ychwanegu at allu'r gymuned.

Prif nodau'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol yw:

- Meithrin partneriaethau rhwng cymunedau, sefydliadau a gwasanaethau yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau ac egwyddorion cydgynhyrchu
- Gwrando ar gymunedau a gweithio gyda nhw i gynyddu'r cymorth anffurfiol sydd ar gael i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau
- Darparu gwybodaeth, cyngor ac atgyfeiriadau yn lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau yn y gymuned
- Datblygu amrywiaeth o wasanaethau cyffredinol ac arbenigol yn y gymuned i ddiwallu anghenion y boblogaeth

- Ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn llunio model o rwydweithiau cymdeithasol sy'n dderbyniol i bawb
- Hyrwyddo darparwyr gwerth cymdeithasol yn rhan o'r broses gomisiynu
- Sicrhau cysondeb â datganiadau a chynlluniau comisiynu strategol eraill, megis rhai ar gyfer pobl hŷn, plant, pobl ifainc a theuluoedd a phobl ag anableddau dysgu
- Gweithredu fel grŵp atgyfeirio o ran ymgysylltu â'r gymuned a'r trydydd sector

## Adran 4: Cynnydd yn erbyn amcanion

Mae'r adran yma'n amlinellu cynnydd y Bwrdd Partneriaeth yn ystod 2016/17 yn erbyn yr amcanion a gafodd eu pennu ar ddechrau'r flwyddyn ac a gaiff eu rheoli drwy raglen ranbarthol (wedi'i darlunio yn **Atodiad 1**)

### **Amcan 1: Sicrhau y caiff yr asesiad o'r boblogaeth sydd ei angen o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei gyflawni a'i fod yn effeithiol.**

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i weithio gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo lles yr oedolion a'r plant sydd angen cymorth neu gynhalwyr sydd angen cymorth.

Rhaid i wasanaethau cyhoeddus ddod i ddeall y boblogaeth sy'n byw yn yr ardal ar hyn o bryd a'r trigolion a fydd, mwy na thebyg, yma yn y dyfodol, os ydyn nhw'n mynd i roi dyfodol gwell i bobl ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful ynghyd â'u gwasanaethu nhw yn y ffordd orau. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth pobl o gyd-destun ehangach bywydau pobl, yr hyn sy'n bwysig i gymunedau a'r hyn sy'n cael effaith ar eu lles a'u hangen am ofal a chymorth. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaethau i wneud cynlluniau gyda'i gilydd mewn modd priodol yn ogystal â chomisiynu mentrau llwyddiannus a helpu pobl i fyw eu bywydau yn y modd gorau posibl.

Mae angen mwy nag ystadegau er mwyn deall cymunedau, gan gynnwys gwybodaeth gan y rheiny sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol. Gyda chymorth pob partner, gan gynnwys y bobl sy'n byw yng Nghwm Taf, mae modd creu darlun mwy cyflawn o'n cymunedau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn am asesiad o anghenion y boblogaeth ar gyfer Cwm Taf. Mae modd cael manylion am hyn yn y Cod Ymddygiad sy'n cydfynd â'r Ddeddf. Mae modd ei weld wrth ddilyn y ddolen ganlynol <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2en.pdf>

Rydyn ni wedi cyflawni'r asesiad cyntaf o'r boblogaeth ar gyfer rhanbarth Cwm Taf a chaiff ei gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Merthyr Tudful.

Er mwyn sicrhau bod yr Asesiad o'r Boblogaeth yn effeithiol, rhoddodd y Bartneriaeth y trefniadau canlynol ar waith er mwyn cefnogi'r broses o'i ddatblygu. Cafodd yr un broses ei defnyddio i ddatblygu'r Asesiad Lles a oedd yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Galluogodd hyn i ni fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a gallu ein partneriaid, yn ogystal â chydlynu ac atgyfnerthu'r gwaith ymgysylltu angenrheidiol ar gyfer y ddau Asesiad. Roedd hefyd yn gyfle i ni fanteisio ar y cyfleoedd roedd y ddwy Ddeddf yn eu cynnig, er enghraifft cyfleoedd o ran atal a lles.

- Drwy gydol y flwyddyn, bu grŵp o swyddogion craidd yn cyfarfod bob mis er mwyn goruchwyllo'r asesiad o'r boblogaeth a'i gyflawni. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Cyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngorau Gwirfoddol Siroedd ac Uned Ddata Cymru. Cafodd adroddiadau'r Grŵp craidd eu hystyried yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth a TLG drwy gydol y flwyddyn.
- Cafodd dau is-grŵp eu sefydlu hefyd, y naill ar gyfer data a'r llall ar gyfer ymgysylltu. Nod hyn oedd arwain y gwaith manwl yr oedd ei angen ar gyfer yr agweddau meintiol ac ansoddol ar yr asesiadau.
- Cafodd nifer sylweddol o ddeunyddiau eu hystyried o amrywiaeth ehangach o ffynnonellau, yn enwedig gwybodaeth leol a barn rhanddeiliaid. Cyn hir, bydd y manylion "technegol" yma i'w gweld mewn llyfrgell ar-lein.
- Llunion ni gynllun ymgysylltu manwl, sef "Deall ein Cymunedau" a chytuno arno. Gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar asedau, cam cyntaf y broses oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r dogfennau sy'n rhan o'r broses:
  - Sgyrsiau â rhanddeiliaid mewn amrywiaeth o achlysuron cyhoeddus ledled Cwm Taf, gan ddefnyddio awgrymiadau i ganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw, beth sy'n gadarnhaol/eu gwneud nhw'n hapus a syniadau am sut y gallwn ni wella lles a gwasanaethau gofal a chymorth;
  - Sgyrsiau â grwpiau a fforymau sefydledig sydd wedi'u hwyluso gan y grwpiau eu hunain neu bartneriaid o'r Is-grŵp Ymgysylltu, gan ddefnyddio'r un argymhellion; a
  - Holiaduron ar-lein.
- Ar gyfer cam cyntaf yr asesiad o'r boblogaeth, llunion ni saith dogfen friffio a oedd yn ymwneud â phob thema a gafodd ei nodi yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- I ddechrau, roedd y dogfennau briffio yn grynodedig o ganfyddiadau'r data, y gwaith ymchwil a'r gwaith ymgysylltu a gafodd eu casglu gan awduron y grŵp.
- Cafodd y dogfennau briffio eu cyflwyno mewn cyfres o weithdai i rhanddeiliaid lle roedd mwy na 250 o bobl yn bresennol yn ystod hydref 2016. Nod hyn oedd cynnal trafodaeth ynglŷn â'r prif benawdau ac ystyried unrhyw fylchau neu gyfyngiadau o ran yr asesiadau.
- Er mwyn sicrhau bod y broses yn drylwyr, gofynnodd y Bwrdd Partneriaeth i ymgynghorwyr allanol (Institute of Public Care and Practice Solutions) fod yn "gyfelliion beirniadol" ar nifer o gamau yn ystod y broses. Bydd modd gweld eu hadroddiadau nhw yn y llyfrgell ar-lein hefyd.

- O ganlyniad i'r gweithdai, cafodd y dogfennau briffio eu diwygio. Nod hyn oedd tynnu sylw at fylchau mewn data, cysylltiadau sy'n trawsdorri a themâu cyffredin. Mae'r adroddiad asesiad cyffredinol yn clymu'r holl ddogfennau yma at ei gilydd.
- Cafodd Adroddiad yr Asesiad ei lunio mewn iaith hawdd iawn ei deall er mwyn annog amrywiaeth eang o randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau i'w ddarllen a'i ddefnyddio. Bydd yn helpu i ddarparu adborth o'n gweithgareddau ymgysylltu blaenorol a hwyluso'r sgysiau sy'n dal i gael eu cynnal wrth i ni greu cynlluniau a datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar ein canfyddiadau.
- Mae Adroddiad yr Asesiad yn borth sy'n rhoi blas i bobl ar y gwaith rydyn ni wedi'i gyflawni. Mae modd gweld rhagor o fanylion a dadansoddiadau drwy edrych ar y dogfennau briffio, a rhagor o fanylion a dadansoddiadau eto yn y llyfrgell dechnegol. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau yma yn creu ein hasesiad o'r boblogaeth, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Bydd modd cael mynediad i lyfrgell dechnegol Cwm Taf o fis Ebrill 2017.

## Amcan 2: Sicrhau bod deiliant yr asesiad o'r boblogaeth yn cael ei ystyried wrth lunio, cyhoeddi a chyflawni cynlluniau strategol

Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn ffynhonnell o wybodaeth werthfawr y mae modd i bawb ei defnyddio. Rydyn ni wedi defnyddio'r asesiad i fwrw ymlaen â newid ledled y rhanbarth yn y gorffennol, ac rydyn ni'n parhau i wneud hynny. Caiff ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau amrywiol ym maes cynllunio, comisiynu a gweithredoedd er mwyn llywio gwasanaethau i ddiwallu anghenion ein cymunedau.

Dyma gipolwg ar yr hyn a gafodd ei nodi a'i glywed yn ystod yr Asesiad. Mae'r wybodaeth yma yn llywio ein llyfr gwaith comisiynu strategol sydd wedi'i amlinellu o dan amcan 6 isod

### Cynhalwyr (Gofalwyr)

- Mae'r cynnydd mewn pobl sydd ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael, cyflyrau cronig, anableddau a nifer y bobl sy'n mynd yn hŷn yn effeithio ar yr angen am ofal anffurfiol yn ogystal â chynhalwyr.
- Mae angen cydnabod a gwerthfawrogi rôl y cynhalwyr o ran darparu gofal. Maen nhw'n awyddus i gael eu clywed a chael rhagor o reolaeth dros eu hunain, ond mae sefyllfa pob un ohonyn nhw'n wahanol.
- Rhaid sicrhau bod modd i gynhalwyr ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arny'n nhw mewn modd hawdd a chyflym er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw barhau i ddarparu gofal.
- Mae cynhalwyr yn awyddus i gymryd rhan mewn bywyd sydd y tu allan i waith gofal.
- Rhaid i gynhalwyr a darparwyr gwasanaethau weithio gyda'i gilydd a chyfathrebu a chydlynu eu gwasanaethau'n well, gan ystyried yr unigolyn yn hytrach na'r broblem.

### Plant a Phobl Ifainc

- Caiff Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod effaith enfawr ar iechyd a lles pobl wrth iddyn nhw fynd yn hŷn.
- Mae'n hollbwysig fod modd i bobl fanteisio ar wasanaethau iechyd meddwl yn brydlon er mwyn cefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifainc. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r baich ar wasanaethau anghenion lefel uchel megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.
- Mae tystiolaeth yn dangos bod lefelau lles goddrychol yn rhagddweud iechyd yr unigolyn hwnnw yn y dyfodol, hyd ei oes, cynhyrchedd ac incwm.
- Mae angen i ni wella'r ffordd rydyn ni'n cynnwys plant a phobl ifainc yn y broses, gan ofyn am eu barn a gwrandao ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud.



#### **Anabledd Dysgu**

- Mae pobl yn awyddus i fod yn rhan o'u cymuned.
- Mae'n ymddangos bod rhagor o bobl sydd â llawer o anableddau dysgu gwahanol, ac mae'r hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl gwan y gwasanaethau yn newid. Mae hyn yn creu heriau i bawb.
- Mae hi'n anodd cael gafael ar gymorth ar frys.
- Mae angen i wasanaethau wedithio gyda'i gilydd yn well er mwyn gweld yr unigolyn yn hytrach na'r broblem.

#### **Iechyd Meddwl**

- Mae cefnogi iechyd meddwl pobl yn bwysig - boed iddyn nhw fod yn blant, pobl ifainc, oedolion neu bobl hŷn.
- Mae datblygu gwasanaethau ataliol yn flaenoriaeth.
- Rhaid i ni ddatblygu iaith gyffredin er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.
- Mae angen i ni wella ein systemau er mwyn darparu gwasanaethau gwell a lleihau anghydraddoldebau.

#### **Pobl hŷn**

- Mae pobl hŷn angen cymunedau cefnogol a rhwydweithiau teuluol, ac maen nhw'n eu gwerthfawrogi.
- Mae pobl hŷn yn gwerthfawrogi eu hannibyniaeth a'u gallu i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Yn ogystal â hynny, maen nhw'n disgwyl i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd er mwyn cydlynu gofal.
- Mae pobl hŷn yn awyddus i gael eu trin ag urddas a pharch ac maen nhw'n gwerthfawrogi cysondeb wrth gael gofal gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

#### **Anabledd Corfforol a Nam Synhwyrdd**

- Er bod amrywiaeth o wasanaethau cymorth yn bodoli, dydy pobl ddim yn siwr pa gymorth sydd ar gael yddyn nhw, nac yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau a chymorth.
- Dydy pobl ddim yn uniaethu â'r iaith na'r diffiniadau y mae gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau yn eu defnyddio o ddydd i ddydd.
- Mae angen i wasanaethau ganolbwyntio ar anghenion yr unigolion.
- Mae pobl sydd ag anableddau corfforol, gan gynnwys nam synhwyrdd, yn awyddus i fod yn rhan o'r gymuned a chael gwared ar y rhwystrau sy'n bodoli.
- Sefydlu gwasanaeth ymyriad cynnar a gwasanaeth ataliol yn hytrach na gwasanaethau ymatebol, sydd fel arfer yn cael eu defnyddio yn ystod argyfwng.

#### **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

- Mae angen grymuso pobl fel bod modd iddyn nhw roi gwybod am drais a manteisio ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig.
- Mae angen i'r gwasanaethau ddiwallu anghenion pob grŵp sy'n rhan o'n cymunedau.
- Yn ogystal â hynny, mae angen i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r problemau sy'n arwain at drais.
- Mae angen i'r gwasanaethau ddiogelu plant mewn teuluoedd lle mae trais neu gam-drin yn digwydd, a'u cefnogi.
- Dylai'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ddweud wrthn ni beth maen nhw ei angen a sut y gallwn ni wella ein gwasanaethau.

Yn ogystal â hynny, nodon ni fod llawer o'r problemau yn croesi ffiniau'r gwasanaethau, neu'n gyffredin mewn nifer o wasanaethau. Mae hyn yn bennaf am fod pobl yn "perthyn" i fwy nag un grŵp cleient (neu thema, yn ôl y Ddeddf), ac mae ganddyn nhw amrywiaeth o anghenion. Byddwn ni'n ystyried hyn wrth gynllunio ein hymateb i'r Asesiad. Er enghraifft, rhaid cynllunio ar gyfer pobl hŷn ac ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gyda'i gilydd er mwyn helpu pobl sydd â dementia mewn modd effeithlon. O ran anghenion plant, rhaid mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau. Yn ogystal â hynny, bydd angen i'r gwasanaethau tai ac addysg gydweithio â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydyn ni eisoes wedi defnyddio gwybodaeth o'r Asesiad o'r Boblogaeth i lywio'r broses o lunio Datganiadau Strategol sydd wedi'u hamlinellu o dan Ddatganiad 6 isod.

Ar nodyn pwysig, bydd yr Asesiad o'r Boblogaeth yn llywio'r broses o lunio a gweithredu cynllun ardal leol Cwm Taf, a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

### **Amcan 3: Sicrhau bod y cyrff sy'n bartneriaid yn darparu adnoddau digonol fel bod trefniadau'r bartneriaeth yn effeithiol**

Mae pob sefydliad sydd â chynrychiolwr ar y Bwrdd Partneriaeth wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd ym mhob rhan o'r rhanbarth. Mae nifer yr aelodau, lefelau presenoldeb a nifer y cyfranogwyr ym mhob grŵp a gweithgaredd sy'n rhan o'r rhaglen yn profi hyn.

Cronfa Gofal Canolraddol a Grant Cyflawni Trawsnewid Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod gan Fwrdd Partneriaeth Cwm Taf yr adnoddau priodol i fwrw ymlaen â'i waith. Serch hynny, byddai'n anodd cyflawni'r gwaith uchelgeisiol yma heb y swyddogion a'r staff ar lefelau arwain a gweithredu.

#### Cronfa Gofal Canolraddol

Ers y dechrau, mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi defnyddio'r Gronfa Gofal Canolraddol i ariannu'r broses o newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a chefnogi'r broses o ddatblygu modelau cyflawni cynaliadwy. Mae'r modelau yma yn gysylltiedig â blaenoriaethau rhaglen y Bwrdd Partneriaeth ac, o ganlyniad i hynny, caiff y Gronfa ei hystyried yn ffordd o helpu i ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi cael budd sylweddol o'r gronfa. Ariannodd hyn y broses o drawsnewid gwasanaethau'r rheng flaen, gan ein galluogi ni i wneud cynnydd o ran integreiddio (e.e. datblygu'r gwasanaethau Cadw'n Iach Gartref a'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig) ac atal (e.e. Cydlynwyr y Gymuned)

Mae crynodeb o'r cynlluniau Cronfa Gofal Canolraddol a gafodd eu hariannu yn 2016/17 wedi'i atodi yn **Atodiad 2**.

#### Grant Cyflawni Trawsnewid

Yn wahanol i'r Gronfa Gofal Canolraddol, cafodd y Grant Cyflawni Trawsnewid ei ddefnyddio i gefnogi'r capasiti a'r arweiniad sydd eu hangen i ddarparu'r Rhaglen Ranbarthol (wedi'i hatodi fel **Atodiad 1**) a helpu'r Bwrdd Partneriaeth i reoli ei ddyletswyddau statudol.

Mae mynediad i'r Grant yma wedi bod o fudd i'r Bwrdd Partneriaeth hefyd, gan ei fod wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau'r Bartneriaeth a dealltwriaeth o'r blaenoriaethau lleol.

Mae crynodeb o ddyraniad y Grant Cyflawni Trawsnewid wedi'i atodi yn **Atodiad 2**.

### **Amcan 4: Sicrhau bod cronfeydd ar y cyd yn cael eu sefydlu lle y bo hynny'n briodol.**

Mae gan Gwm Taf hanes cadarnhaol o weithio gyda sefydliadau eraill a thynnu adnoddau at ei gilydd, er enghraifft:

[Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf](#) - gwasanaeth integredig a chronfa ar y cyd a gafodd ei drefnu drwy drefniant cyfreithiol rhwng Cyngor Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful

[Gwasanaeth Cyfarpar Cymuned Integredig Cwm Taf](#) - gwasanaeth integredig a chytundeb Adran 33 rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chynghorau Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi cyflawni ei amcanion ar gyfer 2016/17, sef sefydlu cronfeydd ar y cyd a chreu cronfeydd ar y cyd newydd ar gyfer

[Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf](#) - gwasanaeth integredig a chronfa ar y cyd a gafodd ei drefnu drwy drefniant cyfreithiol rhwng Cyngor Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful

[Carfan Cymorth i Deuluoedd Integredig Cwm Taf](#) - gwasanaeth integredig a chronfa ar y cyd a gafodd ei drefnu drwy drefniant cyfreithiol rhwng Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

[Trefniant cronfa ar y cyd ar gyfer pecynnau gofal ar y cyd i bobl ag Anableddau Dysgu](#). Mae hwn yn fenter galluogi allweddol mewn perthynas â gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau llanw i helpu pobl sydd ag anghenion cymhleth iawn a'u datblygu yn y Strategaeth Gydgomisiynu. Mae'r trefniant yma yn helpu i ni brofi'r syniad o sefydlu cronfa ar y cyd ar gyfer y broses o gynllunio ar gyfer y gronfa ar y cyd mwy cymhleth a gaiff ei roi ar waith yn 2018.

Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi datblygu [Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref](#). Caiff y gronfa ar y cyd ei threfnu drwy gytundeb cyfreithiol a bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2017.

**Amcan 5: Caiff yr wybodaeth yma ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau, gofal a chymorth eu darparu. Caiff hyn ei wneud ar sail technoleg a systemau cyffredin**

### **System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru**

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn fuddsoddiad sylweddol ym maes TG a gafodd ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Nod hyn yw integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd y system newydd yn galluogi'r gwasanaethau cymdeithasol (i oedolion a phlant) ac amrywiaeth o wasanaethau iechyd cymunedol (gan gynnwys iechyd meddwl, therapi a nyrsio cymunedol) i gynllunio, cydlynu a darparu gwasanaethau i unigolion, teuluoedd a chymunedau drwy gefnogi gofynion o ran rhannu gwybodaeth, rheoli achosion a llif gwaith.

Rydyn ni wedi ymrwymo i fabwysiadu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn rhanbarth Cwm Taf ac mae'r ddau awdurdod lleol yn gweithio tuag at lansio'r system ar y dyddiadau a gafodd eu pennu â datblygwyr y system yn 2017.

Mae'r Awdurdodau Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi bod yn dilyn cynlluniau prosiect manwl yn 2016/17 i reoli'r heriau technegol rydyn ni'n eu hwynebu wrth gyflwyno'r system newydd. Rydyn ni'n rhagweld y bydd rhaglen a dull gweithredu i'w gweld ym mhob rhan o'r rhanbarth erbyn 2017/18 er mwyn sicrhau ein bod ni'n manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r system newydd yn eu cynnig.

## Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Gweithion ni'n galed i ddatblygu ein gwasanaethau Gwybodaeth Cyngor a Chymorth mewn modd cyson cyn Ebrill 2016. Mae rhai o'r trefniadau yma yn dal i fod o fewn cylch gwaith pob sefydliad partner unigol, ond mae gyda ni dystiolaeth o'r cynnydd a gafodd ei wneud drwy waith partneriaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran yr hwb diogelu amlasiantaeth a'r broses o brynu a datblygu cyfeirlyfr Dewis Cymru.

## Dewis



Mae Dewis Cymru yn wefan sy'n cynnwys tudalennau gwybodaeth am les a gaiff eu llunio ar lefel genedlaethol, yn ogystal â chyfeirlyfr adnoddau (cronfa ddata) lle mae modd ychwanegu adnoddau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n hybu ac yn cefnogi lles.

Mae'r cyfeirlyfr adnoddau yn helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i wasanaethau yn eu hardaloedd a allai fod o fudd iddyn nhw neu'u teuluoedd. Yn ogystal â hynny, mae'n ddefnyddiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n datblygu cynlluniau cymorth gyda'r rheiny maen nhw'n gofalu amdanyn nhw, yn ogystal â chael gafael ar gyngor/gwybodaeth ar gyfer y rheiny sy'n chwilio am gymorth.

Mae partneriaeth Cwm Taf wedi buddsoddi yn Dewis Cymru ac wedi gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod manylion cyswllt ei holl wasanaethau cymorth, gan gynnwys mwy na 200 o grwpiau cymuned, wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata er mwyn galluogi pobl ledled rhanbarth Cwm Taf i gael gafael ar wybodaeth yn ôl yr angen.

I gael rhagor o wybodaeth am Dewis, ewch i <https://www.dewis.cymru>

## Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf

Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yw'r un man cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sydd am adrodd pryderon diogelu, ar draws Cwm Taf.

Yr Hwb yw'r man cyswllt cyntaf ar gyfer pryderon diogelu newydd, ac mae wedi gwella'r broses rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn sylweddol, gan helpu i amddiffyn y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed rhag niwed, esgeuluso a cham-drin.

Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn un o nifer fach o ganolfannau tebyg ledled y wlad sy'n ymdrin â phryderon yn ymwneud â phlant, oedolion sy'n agored i niwed ac achosion o gam-drin domestig risg uchel. Mae'n gweithredu mewn dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y teulu. Mae bron 50 aelod o staff o wasanaethau'r heddlu, y gwasanaethau iechyd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, y gwasanaethau addysg, y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant a'r gwasanaethau amddiffyn/diogelu oedolion yn gweithio law yn llaw yn swyddfa 'MASH'.

Mae'r Hwb yn derbyn pryderon diogelu yn uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol, megis athrawon a meddygon, a chan aelodau o'r cyhoedd a theuluoedd hefyd, drwy ganolfannau cyswllt CBS Rhondda Cynon Taf a CBS Merthyr Tudful.

#### **Amcan 6: Sicrhau bod cynnydd o ran y broses o integreiddio gwasanaethau ar gyfer y bobl ganlyniol**


- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia;
- Pobl sydd ag Anableddau Dysgu;
- Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc;
- Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch.

#### Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia

Rydyn ni wedi mabwysiadu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn:

**“Cefnogi pobl hŷn yng Nghwm Taf i fyw bywydau annibynnol, iach a llawn”.**

Byddwn ni'n cyflawni hyn drwy feithrin dull gweithredu wedi'i integreiddio a'i gydlynw o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (lle bo gorgyffwrdd). Bydd hyn yn cynnwys tair lefel gysylltiedig:



Caiff nodweddion y gwasanaethau yma eu disgrifio'n fanwl yn Natganiad Cydgomisiynu Gwasanaethau Pobl Hŷn Cwm Taf 2015-2025 (ar gael ar wefannau partner neu gan [sian.nowell@rctcbc.gov.uk](mailto:sian.nowell@rctcbc.gov.uk)).

Ers i Ddatganiad Cydgomisiynu Gwasanaethau Pobl Hŷn Cwm Taf, mae'r Bartneriaeth wedi gwneud cynnydd o ran cyflwyno modelau gwasanaeth newydd neu amgen ar gyfer pobl hŷn. Mae hyn yn arbennig o wir o ran y gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref a Chydlynwyr y Gymuned, sydd wedi'u hamlinellu isod:

#### **Datblygu'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref**

Bydd y broses o ddatblygu gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref Integredig yn chwarae dwy rôl hollbwysig, sef y Gwasanaeth yn yr Ysbyty, sy'n rhedeg am saith diwrnod yr wythnos o dan ofal Carfan yr Ysbyty, a charfan ymateb yn y Gymuned.

- Mae Carfan yr Ysbyty yn gyfrifol am y Gwasanaeth yn yr Ysbyty rhwng y wardiau, yr Uned Ddamweiniau ac Achosion Brys, a'r Undeb Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, yn ddibynnol ar y gweithgarwch a'r galw. Mae'r garfan yn cynnal asesiadau cymesur ac yn comisiynu cymorth yn y gymuned (am hyd at 14 diwrnod ar ôl i'r claf adael yr ysbyty). Nod hyn yw galluogi cleifion i ddychwelyd i'w cartrefi mewn modd diogel ac amserol er mwyn eu hatal rhag mynd yn ôl i'r ysbyty yn ddiangen.
- Bydd ymateb y gymuned yn cynnwys:
  - Ymateb o fewn pedair awr gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (ail-alluogi, nyrsys y gymuned, fferylllydd a'r offer)
  - Trefniadau mynediad ac atgyfeirio estynedig (h.y. mynediad i wasanaethau y tu allan i oriau craidd)
  - Cymwyseddau staff estynedig (e.e. roi meddyginiaeth)
  - Capasiti estynedig o ran goruchwyllo, cynllunio ac asesu risg y gwasanaeth yn y gymuned y tu allan i oriau swyddfa
  - Gwellhad cyn dechrau ar ail-alluogi (e.e. y rheiny sydd mewn plaster neu'n dal i fod mewn poen ar ôl niwed ac ati).

#### **Cyflwyno 5 Cydlynnydd Cymuned sydd:**

- Wedi'u lleoli yn yr ardal leol
- Yn darparu gwybodaeth, cyngor ac atgyfeiriadau i grwpiau cymuned, gweithgareddau a gwasanaethau lleol
- Meithrin partneriaethau cryf â chymunedau, asiantaethau a gwasanaethau er mwyn cynorthwyo pobl sy'n 65 oed a hŷn
- Helpu pobl i fyw eu bywydau annibynnol yn reu cymunedau
- Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r sector gwirfoddol yn y gymuned ac ym maes statudol

**I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01443 846200 neu cysylltwch ag Anne Morris ar [amorris@interlinkrct.org.uk](mailto:amorris@interlinkrct.org.uk)**

**Mae Datganiad o Fwriad Strategol Cwm Taf ar gyfer Plant, Pobl Ifainc, Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu (gan gynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd yn canolbwyntio ar y negeseuon allweddol canlynol:**

- Gwneud y defnydd gorau o wasanaethau cyffredinol;
- Rhagor o ymyrraeth gynnar, gweithgareddau atal, gwybodaeth, cyngor a chymorth;
- Datblygu cymorth yn y gymuned a meithrin annibyniaeth pobl;
- Cynnal pobl yn eu cartrefi eu hunain;
- Galluogi pobl i fyw bywydau cyflawn a chyflawni eu potensial;
- Cadw pobl yn ddiogel;
- Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Nod ein gweledigaeth yw galluogi pobl sydd ag anabledd dysgu i gael gafael ar wasanaethau modern sy'n hybu annibyniaeth, sy'n lleihau'r angen am wasanaethau hirdymor ac sy'n rhoi pwyslais ar ddewis a rheolaeth.

Ein nod yw y bydd plant, pobl ifainc ac oedolion sydd ag anableddau dysgu (gan gynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) yn gallu cael gafael ar wasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n arwain at ddeilliannau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn lleihau'r achosion o atgyfeirio o ran anghenion a risgiau drwy hybu ymyriadau cynnar, dulliau atal, annibyniaeth a mynediad at gyfleoedd.

Nod Dull Gweithredu Rhanbarthol Cwm Taf yw helpu pobl sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd i brofi'r deilliannau sydd wedi'u hamlinellu ar lefel genedlaethol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae modd gweld y Weledigaeth a'r Datganiad o Fwriad Strategol ar wefannau Partner neu gan [sian.norwell@rctcbc.gov.uk](mailto:sian.norwell@rctcbc.gov.uk). Bellach, rydyn ni wrthi'n gweithio i sicrhau bod pob rhanddeiliad a defnyddiwr gwasanaeth, yn ogystal â'u cynhalwyr, wedi ymgysylltu a'r broses o ddatblygu a chyd-gynllunio'r model gwasanaeth newydd.

Mae'r Bartneriaeth wedi canolbwyntio ar ymdrechu i sefydlu gweledigaeth gyffredin a llunio datganiad o ddiben strategol yn ystod y flwyddyn yma. Serch hynny, rydyn ni hefyd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu gwasanaeth penodol i helpu pobl sydd ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u cynhalwyr. Rydyn ni'n bwriadu dechrau rhoi'r gwasanaeth yma ar waith ar ddiwedd mis Mawrth, a bydd e'n gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2017.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai £6 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y broses o ddatblygu Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ledled Cymru. Cafodd yr arian yma ei ddyrannu yn rhan o'r Gronfa Gofal Ganolraddol. Cafodd rhanbarth Cwm Taf ei ddewis yn un o'r safleoedd peilot ar gyfer y gwasanaeth newydd, sy'n gwasanaethu ardal bresennol y Bwrdd Iechyd.



Mae gan lawer o unigolion sydd ag awtistiaeth anghenion o ran cymorth sydd ddim yn cael eu diwallu. Serch hynny, dydyn nhw ddim yn gymwys i gael cymorth gan y gwasanaethau yma ar hyn o bryd. Ar gyfer plant a phobl ifainc, mae bwlbh rhwng cymorth ym myd addysg a chymorth ar gyfer rhieni a chynhalwyr yn y cartref. Mae llawer o oedolion yn cwmpo i mewn i fwlbh rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledau dysgu. Does dim modd iddyn nhw gael gafael ar gymorth yn gyson, sy'n golygu bod eu hanghenion yn gwaethygu. Yn aml, gall hyn arwain at argyfwng, gan gynnwys problemau emosiynol/iechyd meddwl ar gyfer yr unigolyn sydd ag awtistiaeth yn ogystal â'r rheiny sy'n gofalu amdano. Gall hyn arwain at anghydfod rhwng aelodau'r teulu.

Mae'r gwaith ymchwil lleol yn awgrymu bod y rheiny sydd ag awtistiaeth angen gwasanaeth cymorth sy'n:

- para ar hyd eu hoes;
- ymateb i anghenion;
- goresgyn rhwystrau o ran iechyd a gofal cymdeithasol;
- cysylltiedig ag addysg a gwasanaethau cymorth, ac yn eu cefnogi;
- hyblyg;
- hygyrch iawn;
- meddu ar sgiliau da ym maes awtistiaeth;
- darparu arbenigedd i'r gwasanaeth yn ehangach.

Yn lleol, mae'r Grŵp Arwain Trawsnewid a Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cynigion gan grŵp llywio amlddisgyblaethol. Mae'r gwaith o sefydlu'r garfan a'i drefniadau o ran gweithredu yn mynd rhagddo.

#### Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc;

Ar gyfer 2016/17, mae'r Bartneriaeth yng Nghwm Taf wedi llunio Strategaeth i Gynhalwyr (2016-2019), ac wedi'i chymeradwyo, a hynny er mwyn llywio'r rhaglen waith ranbarthol (ar gael o wefannau Partner neu gan [sian.nowell@rctcbc.gov.uk](mailto:sian.nowell@rctcbc.gov.uk))

Wrth lunio'r Strategaeth i Gynhalwyr, rhannodd y Bartneriaeth ei hymrwymiad i gynhalwyr, sef:

**Bydd cydnabod a gwerthfawrogi cynhalwyr o bob oed yng Nghwm Taf yn elfen sylfaenol mewn teuluoedd a chymunedau cefnogol a gwydn. Fydd dim rhaid iddyn nhw roi gofal ar eu pennau eu hunain a bydd modd iddyn nhw gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i helpu i ddiwallu'u hanghenion, gan roi grym iddyn nhw i fyw bywydau iach a llawn, gan gydbwyso eu gwaith gofalu â'r rhannau eraill o'u bywydau.**

Mae cymeradwyo Strategaeth i Gynhalwyr ar y cyd wedi bod yn gam pwysig i Bartneriaeth Cwm Taf. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod arfer da ar waith o ganlyniad i waith y partneriaid i roi Mesur y Cynhalwyr ar waith. Rydyn ni eisoes wedi cyflwyno Adroddiadau Blynyddol i Lywodraeth Cymru ynglŷn â Chynhalwyr. Bydd yr



adroddiad ar gyfer 2016/17 ar gael ym mis Mehefin 2017. Byddwn ni'n gweithio ar hyn er mwyn mynd i'r afael â 5 Prif Nod y Strategaeth, sydd wedi'u hamlinellu isod:

**Nod 1:** Adnabod Cynhalwyr o bob oedran, a chydabod eu cyfraniadau

**Nod 2:** Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n gyfoes, yn berthnasol ac yn amserol ar gyfer cynhalwyr o bob oedran

**Nod 3:** Darparu cymorth, gwasanaethau a hyfforddiant i ddiwallu anghenion cynhalwyr o bob oedran.

**Nod 4:** Rhoi llais i gynhalwyr o bob oedran, gyda mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau

**Nod 5:** Gweithio gyda'n gilydd i fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau er budd cynhalwyr o bob oed

#### **Y sefyllfa ar hyn o bryd - Rydyn ni wedi**

- Datblygu rhwydwaith o fwy na 300 o Hyrwyddwyr Cynhalwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth a phroffil rôl Cynhalwyr mewn lleoliadau ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, tai, hamdden, Canolfannau Byd Gwaith ac yn y sector gwirfoddol.
- Llunio adnodd e-ddysgu i staff hyfforddi ym mhob sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â Chynhalwyr ac addysgu pobl amdanyn nhw.
- Cynnal hyfforddiant i nyrsys, gweithwyr gofal cymdeithasol ac athrawon dan hyfforddiant ymm Mhrifyd gol De Cymru, Coleg y Cymoedd a Choleg Merthyr Tudful fel bod ein gweithlu yn effro i anghenion Cynhalwyr yn y dyfodol.
- Llunio Canllaw i Athrawon
- Llunio amrywiaeth o Storiâu Cynhalwyr digidol i'w defnyddio i godi ymwybyddiaeth neu mewn sesiynau hyfforddiant

#### **Beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud nesaf**

- Parhau i recriwtio a chefnogi rhagor o Hyrwyddwyr Cynhalwyr ym mhob sefydliad
- Hyfforddiant parhaus i staff yn y sectorau statudol a gwirfoddol er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o Gynhalwyr a sut i'w chefnogi. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar y modiwlau hyfforddiant newydd sy'n cael eu datblygu'n genedlaethol ac sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Cyflwyno rhaglen achredu ar gyfer Hyrwyddwyr Cynhalwyr mewn Meddygfeydd
- Parhau i hyfforddi nyrsys, gweithwyr gofal cymdeithasol ac athrawon dan hyfforddiant fel bod ein gweithlu yn effro i anghenion Cynhalwyr yn y dyfodol
- Cynnwys Cynhalwyr yn y broses hyfforddi staff, naill ai drwy gyfarfod wyneb yn wyneb neu drwy ddefnyddio Storiâu Cynhalwyr, DVDs ac ati
- Cyflwyno Gwobr Ysgolion Rhondda Cynon Taf er mwyn codi ymwybyddiaeth o Gynhalwyr ymhlith athrawon a disgyblion mewn ysgolion

#### Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch

Yn ogystal â datblygu'r gronfa ar y cyd ar gyfer y Garfan Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r gwaith a gafodd ei amlinellu uchod ar gyfer pobl sydd ag Anableddau Dysgu (gan gynnwys plant), mae'r Bartneriaeth wedi bod yn gweithio i gadarnhau ymrwymiad i weithio gyda'i gilydd dros y ddeng mlynedd nesaf i wella'r ffordd mae'n hybu iechyd, cyflawniad, lles a diogelwch i blant, pobl ifainc a theuluoedd yn y rhanbarth.

Rydyn ni wrthi'n datblygu'r rhaglen waith yma ond, unwaith y byddwn ni'n ei chwblhau, bydd yn amlinellu'r ffordd y byddwn ni'n gweithio gyda phlant, pobl ifainc a theuluoedd sy'n byw yn ein rhanbarth, gyda'r nod o'u helpu i ddechrau ar eu bywydau yn y modd gorau posibl. Bydd hefyd yn amlinellu sut y byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a chanfod cyfleoedd i gyfuno adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n hygyrch ac wedi'u hintegreiddio ac sy'n helpu plant, pobl ifainc a theuluoedd mewn modd cyflym ac effeithiol.

Caiff y rhaglen yma ei llunio gan y Partneriaid yng Nghwm Taf mewn ymateb i'r dadansoddiad o'r boblogaeth ac ymgynghoriadau â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn 2016 a 2017. Ein bwriad yw y bydd y cynnyrch yma yn aros yn berthnasol hyd at 2022. Ar ôl i'r Bwrdd Partneriaeth ei gymeradwyo, rydyn ni'n gobeithio y bydd yn llywio gweithgareddau a gwasanaethau i bobl ifainc a theuluoedd ledled y rhanbarth.

### **Amcan 7: Sicrhau y caiff cronfeydd arian ar y cyd eu sefydlu a'u rheoli yn unol â llety gofal preswyl o 6 Ebrill 2018 ymlaen.**

Byddwn ni'n mynd i'r afael â'r amcan yma o 2014 ymlaen. Serch hynny, mae'r Bartneriaeth wedi goruchwyllo'r gwaith paratoi canlynol ar gyfer y prosiect yn ystod 2016/17

- Llunio manyleb gyffredin o ran Contract a Gwasanaeth ar gyfer cartrefi gofal yn y rhanbarth. Rydyn ni wrthi'n trafod hyn â darparwyr
- Datblygu Datganiad ar Safle'r Farchnad ar gyfer y farchnad o ran Cartrefi Gofal. Dylai'r gwaith yma gael ei gwblhau yn y gwanwyn
- Cymryd rhan yn Nadansoddiad y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol o'r Farchnad. Roedd hyn yn rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad
- Hwyluso gweithdy rhanbarthol (gyda chymorth y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol) er mwyn ystyried yr opsiynau o ran trefnu cronfa ar y cyd

### **Amcan 8: Sicrhau y caiff cronfeydd arian ar y cyd eu sefydlu a'u rheoli yn unol â'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd o 6 Ebrill 2016 ymlaen.**

Nod carfan Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd Cwm Taf yw datblygu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd ac sy'n seiliedig ar ymyriadau er mwyn galluogi rhieni i newid eu hymddygiad yn ôl yr angen er mwyn cynnig cyfleoedd gwell i'r plant.

Mae amcanion Carfan Cymorth Integredig i Deuluoedd Cwm Taf yn cynnwys:

- Lleihau'r achosion o niwed i blant sy'n codi pan fydd eu rhieni'n cam-drin cyffuriau ac alcohol, pan fydd eu rhieni'n cael problemau iechyd meddwl neu os oes gan eu rhieni anableddau dysgu.
- Gwella'r deilliannau o ran llesiant i blant sydd â rhieni sy'n cam-drin cyffuriau ac alcohol, rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl neu rieni sydd ag anableddau dysgu.

- Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
- Lleihau nifer y plant sy'n wynebu ymyriad o ran gwaith cymdeithasol statudol.
- Atgyfnerthu'r broses o hyfforddi a datblygu'r gweithlu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Cafodd Carfan Integredig Cymorth i Deuluoedd Cwm Taf ei sefydlu o dan gytundeb cyfreithiol gyda chronfa ar y cyd o 1 Ebrill 2016. Mae Bwrdd Rheoli Gweithredol yn goruchwylio cyflawniad y garfan drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â hynny, caiff Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth a Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16 ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth ym mis Tachwedd 2016. Mae modd anfon cais i'w weld at [sian.nowell@rctcbc.gov.uk](mailto:sian.nowell@rctcbc.gov.uk).

Bydd Adroddiad Blynyddol 2016/7 y Garfan Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gael yn ystod haf 2017.

## ATODIAD 1

### Cynllun Rhanbarth Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf 2016-2021

#### Blaenoriaethau Rhaglenni Lleol

**Pobl Hŷn**

**Pobl sydd ag Anableddau Dysgu**

**Plant a Theuluoedd**

**Cynhalwyr**

#### Themâu sy'n Trawsdorri

**Gweithlu  
Dysgu a Datblygu**

**Ymgysylltu â thrigolion**

**Cyfathrebu a  
chyhoeddusrwydd**

**Gwaith datblygu yn y  
gymuned, hyrwyddo  
mentrau cymdeithasol a'r  
gwaith o ddatblygu  
gwasanaethau ataliol**

**Llety**

#### Gofynion y bartneriaeth

**Dadansoddiad o Anghenion  
y Boblogaeth**

**Cynllun  
Rhanbarthol/adroddiad  
blynyddol**

**Fframwaith rheoli  
cyflawniad**

**Gwybodaeth, Cyngor a  
Chymorth a Dewis**

**Carfanau Asesu a Chynllunio  
Gofal**

**System Wybodaeth Gofal  
Cymunedol Cymru**

**Rheoli Grantiau**

**ATODIAD 2**

**Amserlen Cronfa Gofal Canolraddol Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf ar gyfer 2016/2017**

<b>Maes blaenoriaeth</b>	<b>Gweithgaredd</b>	<b>Dyranriad y Gronfa Gofal Canolraddol</b>
Capasiti am Weithwyr Cymdeithasol Ychwanegol (Rhondda Cynon Taf)	I ateb y galw ychwanegol am anghenion ym maes asesu a rheoli gofal	£171,795
Capasiti am Weithwyr Cymdeithasol Ychwanegol (Merthyr Tudful)	I ateb y galw ychwanegol am anghenion ym maes asesu a rheoli gofal	£51,538
Carfan Gadael yr Ysbyty - Achosion Cymhleth (Rhondda Cynon Taf)	Darparu un pwynt cyswllt i staff iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cefnogi gwasanaethau ar y cyd, gan ddarparu mynediad cyflym, triniaeth effeithiol, parchu dewisiadau'r cleifion a chynnwys cleifion a chynhalwyr mewn cynlluniau o ran gadael yr ysbyty	£97,014
Gwasanaeth cymorth Cartrefi Nyrsio (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf)	Gweithio gyda'r sector Gofal Sylfaenol a chartrefi nyrsio i atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty drwy adnabod y trigolion hynny sydd ag anghenion mwy aciwt ac sydd angen ymyriadau ychwanegol	£181,901
Rhagor o gapasiti ym maes Gofal Canolraddol, Gofal yn y Cartref ac Ail-alluogi (Rhondda Cynon Taf)	Rhagor o gapasiti yn y gwasanaeth Gofal Canolraddol er mwyn darparu gwasanaethau ymyriad tymor byr ac ail-alluogi	£420,391
Rhagor o gapasiti ym maes Gofal Canolraddol, Cadw'n Iach Gartref ac Ail-alluogi (Merthyr Tudful)	Rhagor o gapasiti yn y gwasanaeth Gofal Canolraddol er mwyn darparu gwasanaethau ymyriad tymor byr ac ail-alluogi	£80,845
Gwasanaeth Gadael yr Ysbyty yn Gynnar - Strôc (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf)	Cymorth adfer gwell i gleifion sydd wedi goddef strôc, a'u galluogi nhw i adael yr ysbyty yn gynharach.	£249,002
Cyfnod ail-alluogi hirach i bobl sydd â dementia (Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf)	Helpu pobl sydd â dementia i fod mor annibynnol â phosibl. Sicrhau bod modd i gleifion dementia a oedd yn methu â chael gafael ar amrywiaeth o ofal o ran ail-alluogi a gofal canolraddol wneud hynny	£97,014
Cadw'n Iach Gartref (gwasanaeth rhanbarthol integredig) - £1,830,268	Darparu gwasanaeth asesu ac ymateb integredig er mwyn helpu pobl i ddod gartref o'r ysbyty	£1,830,268
Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (Gwasanaeth rhanbarthol integredig)	Gwasanaeth rhanbarthol er mwyn helpu pobl sydd ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u cynhalwyr	- £204,000
Cyllideb ar y cyd ar gyfer Pecynnau Gofal Integredig o ran Anableddau Dysgu (cyfleuster rhanbarthol integredig)	galluogwr allweddol er mwyn helpu'r arbenigwr integredig a gwasanaethau amgen ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth iawn	£1,830,268
WCCIS (Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a	Cafodd cyllid ei ddarparu i Gyngor Merthyr Tudful, Cyngor Rhondda Cynon Taf a	£205,000

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf er mwyn atgyfnerthu'r gwaith cynllunio prosiectau a'r gwaith paratoi technegol sydd ei angen i gyflwyno'r system	
---------------------------------	---	--

### ATODIAD 3

#### Amserlen Grant Cyflawni Trawsnewid Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf 2016/2017

Maes Blaenoriaeth	Gweithgaredd	Dyranid y Grant Cyflawni Trawsnewid
<p>Sicrhau gallu ac arweinyddiaeth unigolyn a enwir ar lefel Pennaeth Gwasanaeth er mwyn arwain carfan ar hyd ardal y Bwrdd rhanbarthol</p> <p>Sicrhau bod modd i'r garfan ranbarthol gefnogi blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru</li> <li>Arwain y rhaglen newid er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith drwy gydweithio â phartneriaid ôl troed, yn arbennig y GIG, y trydydd sector a'r sector preifat;</li> <li>Cefnogi'r broses o roi'r bartneriaeth statudol ar waith a chyflawni'r cynllun a dyletswyddau statudol</li> <li>Parhau i ddarparu cynllun rhanbarthol ar ôl cychwyn sydd wedi'i gytuno gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector preifat sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol</li> <li>Sicrhau bod y Strategaeth a'r Cynllun Dysgu a Datblygu wedi'i ymgorffori yn y cynllun.</li> <li>Galluogi gweithwyr proffesiynol ledled ardal y Bwrdd y newid arferion yn ôl gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (IAA, asesiadau a rheoli gofal, eiriolaeth ac ati) a chymryd rhan yn y rhaglen arwain arfer cenedlaethol</li> <li>Datblygu fframwaith mesur cyflawniad cyson</li> <li>Gwellu'r gwasanaeth IAA rhanbarthol drwy brynu Cyfeirlyfr DEWIS Cymru a'i ddatblygu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>£40,000 Pennaeth Gwasanaeth</li> <li>£40,000 Rheolwr Rhaglen</li> <li>£15,000 Cymorth i fusnesau i'r bwrdd</li> <li>£1,561 cyhoeddiadau a llogi'r safle ac ati</li> <li>£55,000 cymorth ar gyfer y dadansoddiad o anghenion y boblogaeth</li> <li>£40,000 Cyflwyno Cyfeirlyfr newydd Dewis Cymru</li> <li>£10,000 Costau prynu cyfeirlyfr newydd Dewis Cymru</li> </ul>
<p>Llunio modelau gwasanaeth newydd ar gyfer gwasanaethau ataliol, comisiynu a mentrau cymdeithasol, gan ymateb i asesiadau o'r boblogaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff blaenoriaethau'r rhaglen yng Nghynllun Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer y materion canlynol eu rhoi ar waith: <ul style="list-style-type: none"> <li>Pobl Hŷn</li> <li>Plant a Theuluoedd</li> <li>Anabledau dysgu</li> <li>Cynhalwyr (Gofalwyr)</li> </ul> </li> <li>Sicrhau y caiff y materion sy'n trawsdorri sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r rhaglen ar gyfer y materion canlynol eu cydlynu: <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Cymunedol</li> <li>Ymgysylltu â thrigolion</li> <li>Gweithlu</li> <li>Llety</li> <li>Cyllidebau ar y cyd a chomisiynu</li> <li>System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>£51,000 Rheolwr Prosiect Cadw'n Iach Gartref</li> <li>£20,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer cymorth arbenigol i gefnogi blaenoriaethau'r rhaglen</li> </ul>
<p>Sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith er mwyn ymgysylltu â thrigolion</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheoli'r panel trigolion yn rhan o drefniadau'r Bwrdd Partneriaeth</li> <li>Mynediad at gynulleidfa o drigolion ehangach drwy'r hwb ymgynghori rhanbarthol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>£20,000 Rheoli'r panel trigolion</li> </ul>
<p><b>Cyfanswm</b></p>		<p><b>£292,561</b></p>

